**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 430**
**26 Medi, 2019 - Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd:**

| | | |
|---|---|---|
| | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol: Staff S4C:** | | |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) - Eitemau 7 a 8 |
| | Eilir Jones | (Pennaeth Dadansoddi) - Eitemau 14 a 15 |
| | Ruth Meadows | (Pennaeth Strategaeth Ddigidol a Dadansoddi) Eitem 17 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C Yr Egin.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb eraill.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 429 (18.07.19)**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 429 a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf, 2019. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 429**

7.1.3 – Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2019/20 – roedd AR wedi diweddaru'r drafftio. Roedd swyddogion yn aros am y cyfieithiad cyn eu cyflwyno i Ofcom a'u cyhoeddi.

8.1.2 – Gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i gyfarfod y Bwrdd – roedd CHR wedi bod mewn cysylltiad gyda swyddfa'r Comisiynydd.

10.1.6 – darparu gwybodaeth am ddosraniad gwariant ar ddigidol – roedd angen sicrhau fod hwn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

[**Crynodeb:** Ymhlith y materion eraill a godwyd o'r cofnodion roedd y trafodaethau gyda'r BBC parthed Newyddion, yr Adroddiad Blynyddol 2018/19 a'r bwlch cyflog ar sail rhyw yn 2018/19.]

4. **Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth. Roedd nifer wedi'i gwblhau ers y cyfarfod diwethaf a byddai'r ysgrifennydd yn diweddaru'r gofrestr erbyn y cyfarfod nesaf.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

5.1 **Penodi'r Cadeirydd Newydd**

**[Crynodeb:** Nodwyd fod y broses o benodi Cadeirydd newydd S4C yn parhau. Roedd yr ysgrifennydd wedi bod yn trafod gyda swyddogion DCMS drefniadau dros dro a phenderfynwyd y byddai'n briodol gofyn i HHE a fyddai'n fodlon gweithredu fel Cadeirydd dros dro.]

Yn ystod y cyfarfod derbyniodd yr ysgrifennydd cadarnhad ar e-bost fod Ysgrifennydd Gwladol DCMS wedi cymeradwyo penodiad HHE yn Gadeirydd dros dro.

5.2 **Penodi Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor Cynnwys**

**[Crynodeb:** Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd Rhodri Williams fel Cadeirydd dros dro'r Pwyllgor Cynnwys.]

5.3 **Diweddariad ar y broses o benodi Archwilwyr Mewnol**

**[Crynodeb:** Rhoddwyd diweddariad ar y broses o benodi Archwilwyr Mewnol a chafwyd cynnig gan y Pwyllgor Archwilio.]

Cymeradwywyd y cynnig i benodi TIAA fel archwilwyr mewnol.

5.4 **Diweddariad ar y trefniadau archwilio gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

Esboniodd OL fod swyddogion dros y misoedd diwethaf wedi cynnal trafodaethau adeiladol gyda DCMS a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn gallu penodi'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilwyr S4C ar gyfer 2019/20. Erbyn hyn, roedd cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C er mwyn hwyluso apwyntiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C, nes bod y ddeddfwriaeth newydd mewn lle. Yn ogystal, roedd S4C a'r NAO yn y broses o gwblhau 'Letter of Engagement'.

Roedd y broses 'handover' gyda Grant Thornton wedi dechrau ac roedd cyfarfod rhwng yr NAO a swyddogion S4C ar 20 Medi i gychwyn y broses cynllunio. Disgwylir bydd yr NAO yn cyfarfod gyda'r Bwrdd ym mis Tachwedd er mwyn cyflwyno'r Rhaglen Waith.

5.5 **Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu (Cynulliad Cenedlaethol Cymru)**

Nododd y Cadeirydd bod e ag OE wedi mynychu'r Pwyllgor ar 18 Medi ar gyfer sesiwn craffu blynyddol ar S4C. Gofynnodd y Pwyllgor ystod eang o gwestiynau yn sgil yr adroddiad blynyddol.

5.6 **Cwrdd â'r DCMS**

**[Crynodeb:** Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei gyfarfod olaf â Chyfarwyddwr, Cyfryngau a Diwydiannau Creadigol y DCMS.]

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, gan gynnwys y materion isod.

6.1 **Contestable Fund DCMS/BFI**

**[Crynodeb:** Esboniodd OE fod 5% o'r gronfa wedi ei glustnodi ar gyfer ieithoedd lleiafrifol yn sgil lobio gan S4C. Roedd tri chais wedi mynd i mewn i'r gronfa ar ran S4C.]

6.2 **Strategaeth Plant**

**[Crynodeb:** Dywedodd AR fod y ceisiadau i'r gronfa uchod yn cynnwys prosiectau plant gyda'r nod o gynyddu gwerth y cyllid ac apelio at blant 9-16 mlwydd oed.]

6.3 **Archif a'r Llyfrgell Genedlaethol**

**[Crynodeb:** Soniodd OE am ei gyfarfod diweddar gyda'r Llyfrgell Genedlaethol am yr archif dapiau. Trafodwyd os oedd angen cadw'r archif dapiau o gwbl yn sgil digideiddio'r tapiau, ynghyd â dulliau gwarchod y deunydd digidol a'r prosesau parhad busnes ac adfer yn dilyn argyfwng i'r dyfodol.

Penderfynwyd y dylid paratoi papurau i'r Bwrdd ar yr Archif a rhaglen digideiddio'r archif gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer adfer yn dilyn argyfwng.]

6.4 **Diweddariad Polisi Diwydiannol**

Yn sgil cytundeb y Bwrdd i ddilyn polisi Diwydiannol, awgrymodd OE y dylid blaenoriaethu'r elfennau sydd yn debyg o gyflawni newid.

<u>Hyfforddiant</u>

**[Crynodeb:** Roedd OE wedi gofyn i arbenigwr allanol drefnu ymchwil ar y maes. Rhennir y Cylch Gorchwyl gyda'r Bwrdd ym mis Hydref. Roedd amryw bartner wedi ymrwymo i gefnogi'r ymchwil.]

<u>Cydraddoldeb</u>

Dywedodd OE taw bwriad S4C yw partneriaethu gyda chyrff sydd eisoes yn cysylltu gyda chymunedau difreintiedig i ganolbwyntio ar Symudedd Cymdeithasol. Roedd OE wedi cwrdd â'r Coleg Brenhinol, Opera Cenedlaethol Cymru a'r Cyngor Llyfrau a'r bwriad oedd cael pawb at ei gilydd i drafod ffyrdd o gynllunio'n strategol ar y cyd. Roedd y Bwrdd yn teimlo byddai'n rhywbeth positif i S4C arwain y ffordd. Soniodd OE hefyd am waith i edrych ar y posibilrwydd o gynnwys cymal cymdeithasol mewn cytundebau. Byddai angen trafod ymhellach gyda'r sector cynhyrchu ond roedd OE yn awyddus er enghraifft i weld mwy o brentisiaethau yn y sector. Roedd S4C newydd lansio cynllun prentisiaid newydd sbon ac wedi croesawu tri phrentis newydd i weithio yn Yr Egin. Dywedodd AR fod mwy o ofynion nawr ar gwmnïau cynhyrchu i sicrhau amrywiaeth fel rhan o'r cynnwys.

<u>Masnachol</u>

**[Crynodeb**: Blwyddyn ar ôl ail-ddiffinio'r strategaeth a llywodraethiant gweithgareddau masnachol S4C mae'r gronfa fasnachol yn fwy sefydlog. Eglurwyd y cymorth ar gael i gynorthwyo cwmnïau i adeiladu achosion busnes a chytunwyd ar werthiant un o'r buddsoddiadau presennol.]

6.5 **Diweddariad Sefyllfa TAW 2019/20**

**[Crynodeb:** Esboniodd EM beth oedd y diweddaraf gyda sefyllfa TAW S4C. Roedd y trafodaethau gyda swyddogion HMRC yn parhau a nifer o drafodaethau wedi digwydd ar lefel swyddogol rhwng S4C a'r DCMS. Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Bwrdd ar gam nesaf S4C.]

7. **Adroddiad Prosiect Cydleoli**

**[Crynodeb:** Esboniodd y Cadeirydd y cefndir a'r cyd-destun hanesyddol. Pan wnaed y penderfyniadau gwreiddiol y gobaith oedd y byddai Adleoli a Chydleoli yn digwydd mwy neu lai'r un pryd. Symudodd pencadlys S4C i'r Egin ym mis Medi 2018 a disgwylir cwblhau'r Cydleoli yng Ngwanwyn 2020.

Trafodwyd rhai o'r heriau sydd ynghlwm â phrosiect o'r fath, yn enwedig wrth i'r prosiect tynnu tuag at y cydleoli. Cytunwyd y dylid paratoi papur ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Archwilio gyda'r BBC ar 5 Tachwedd.]

8. **Paratoadau Brexit**

Esboniwyd fod DCMS nol yn Awst wedi ysgrifennu at S4C yn gofyn ynglŷn â pharatoadau Brexit ac i gadarnhau bod asesiadau o effaith wedi cael ei chyflawni. Dywedodd RhD bod y gwaith wedi cael ei wneud gan gynnwys ymchwil i fater penodol ynglŷn â S4C Clic.

Cymeradwyodd y Bwrdd ymateb S4C i DCMS o ran Paratoadau Brexit.

9. **Diweddariad Strategaeth Miliwn o Siaradwyr**

Nodwyd y papur ar y cydweithio sydd yn digwydd o gwmpas y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â diddueddrwydd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a natur y berthynas gyda'r Llywodraeth o ran hyrwyddo polisi fel miliwn o siaradwyr. Dywedodd y Cadeirydd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig mewn ymateb i Adolygiad Annibynnol S4C wedi croesawu'r argymhelliad o ran partneriaeth iaith ac yn cytuno bod S4C yn chwarae rhan hanfodol mewn adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hybu'r iaith Gymraeg.

**[Crynodeb:** Gofynnodd OD ynglŷn â phrosiect technoleg iaith Llywodraeth Cymru ac esboniodd OE y cefndir gan gynnwys trafodaethau gyda phrifysgolion a phartneriaid eraill. Cytunwyd rhannu copi o 'straw man' y prosiect technoleg iaith gydag OD.]

10. **Diweddariad cynnydd Amrywiaeth**

Nodwyd nad oedd targedau na chwotâu yn yr ymrwymiad amrywiaeth o ran cynnwys S4C yn sgil penderfyniad y Bwrdd ddwy flynedd yn ôl. Serch hynny, roedd y comisiynwyr yn atgoffa ac yn herio'r sector yn gyson o ran sicrhau cyfranwyr a chynnwys sy'n dangos ac yn dathlu amrywiaeth Cymru heddiw.

Cyfeiriwyd at adroddiad diweddar Ofcom ar amrywiaeth a'r angen i bawb yn y sector gan gynnwys PSBs i wneud mwy. Roedd Aelodau yn teimlo erbyn hyn fod angen meddwl yn fwy uchelgeisiol gan gynnwys y posibiliad o osod targedau ar gyfer cynnwys. Er bod Hansh yn ceisio creu cynnwys llawer mwy amrywiol ac annog talent newydd, roedd hi'n bwysig edrych ar holl lwyfannau S4C. Yn y lle cyntaf, awgrymwyd y dylid mesur cyfnod penodol dros lwyfannau S4C o ran amrywiaeth a dychwelyd i'r Bwrdd gydag opsiynau.

Penderfynwyd y dylid paratoi papur i'r Bwrdd ar amrywiaeth cynnwys S4C (ar ôl gwaith dadansoddi / mesur amrywiaeth cyfredol) gydag opsiynau o ran uchelgais/targedau posib.

11. **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2019-20**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR y cynllun gan y BBC oedd yn disgrifio'r ddarpariaeth a manylion yr oriau yn sgil y trafodaethau rheolaidd rhwng swyddogion.]

Cymeradwyodd y Bwrdd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2019/20.

12. **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 25 Medi. Cafwyd cyflwyniad parthed darpariaeth ffeithiol a cross over adloniant ffeithiol S4C gan LlW, gan gynnwys asesiad o berfformiad y strategaeth a chynlluniau ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Roedd y Pwyllgor yn ganmoliaethus ynglŷn â fformat newydd yr adroddiad ac yn ddiolchgar i swyddogion am yr holl waith caled.

13. **Cofnodion y Pwyllgor Archwilio**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Mai 2019 i'r Bwrdd er gwybodaeth.]

14. **Adroddiad ar ennyn Cyrhaeddiad a'r Gogledd Orllewin**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR yr adroddiad oedd yn awgrymu dulliau o ennyn fwy o gyrhaeddiad yn yr Haf - yn enwedig ym mis Awst - ac i adennill cyrhaeddiad yn y Gogledd Orllewin ar draws y flwyddyn. O ran cynyddu gwylio yn y gogledd orllewin, roedd yr argymhellion yn cynnwys rhoi hwb marchnata i raglenni sy'n adlewyrchu'r ardal. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a'r gwaith dadansoddi.]

Cymeradwywyd yr argymhellion i gynyddu cyrhaeddiad mis Awst a gwylio yn y Gogledd Orllewin.

15. **Crynodeb Perfformiad Teledu ac Ar-lein Gorffennaf ac Awst**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EJ grynodeb o berfformiad Gorffennaf ac Awst a thrafodwyd y casgliadau. Nodwyd bod llai o chwaraeon rhyngwladol yn ystod yr haf eleni. Cytunodd EJ i edrych ar oblygiadau'r newid yn y ffordd o gasglu data Clic.

Nodwyd byddai perfformiad yr hydref yn dibynnu dipyn ar Gwpan Rygbi'r Byd, ond roedd hefyd angen sicrhau gwylwyr i gonglfeini'r amserlen a'r cyfresi newydd oriau brig. Ar ôl Cwpan Rygbi'r Byd byddai'r Pro14 yn ailgychwyn a byddai S4C hefyd yn dangos gemau timoedd o Gymru yn y Cwpan Her Ewrop.]

16. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Nodwyd yr adroddiad.

17. **Adroddiad Cynnydd Amcanion y Strategaeth Ddigidol**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar y Strategaeth Ddigidol. Y nod oedd cynyddu'r gwylio gan ddatblygu S4C Clic, creu un ffynhonnell data a thargedu'r marchnata yn bersonol. Roedd gwaith yn parhau i adnabod y platfformau addas ar gyfer Clic. Cytunwyd i rannu amserlen cyflwyno Clic dros yr amrywiol blatfformau gyda'r Bwrdd.]

18. **Newyddion Nos Fawrth 24 Medi 2019**

**[Crynodeb:** Trafodwyd penderfyniad S4C i gadw at y darllediad byw o'r cyfandir ar 24 Medi 2019 pan oedd stori newyddion fawr wedi torri. Byddai swyddogion yn ymateb i lythyr gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad, yn esbonio'r amgylchiadau a'r ymdrechion wnaethpwyd gan S4C i ymateb i'r stori.]

19. **Rhaglenni'r Mis aeth heibio**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.]

20. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

21. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith diwygiedig ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd. Nodwyd bod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio wedi eu trefnu ar y 5ed o Dachwedd er mwyn trafod cydleoli. Byddai'r BBC yn mynychu'r cyfarfod hynny.

22.

Nododd y Cadeirydd bod ymrwymiad i gynnal cyfarfod o'r Bwrdd rhywbryd yn ystod y flwyddyn nesaf yn y Gogledd Ddwyrain. Yn ogystal, byddai angen trefnu diwrnod i ffwrdd ar gyfer y Bwrdd unwaith i'r Cadeirydd newydd gael ei b/phenodi.

23. **Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd HJ i bawb a dymunodd yn dda iawn i bawb ar gyfer y dyfodol.